cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# 2024/25

# PR2

## Confirmation of information about financial circumstances

## Cadarnhau gwybodaeth am amgylchiadau ariannol


English Form - **Pages 1-24**
Ffurflen Saesneg - **Tudalennau 1-24**

Welsh Form - **Pages 25-48**
Ffurflen Gymraeg - **Tudalennau 25-48**

## Pwy ddylai lenwi'r ffurflen hon?

Dylech lenwi'r ffurflen hon:

- Os ydych yn rhiant naturiol neu'n rhiant mabwysiadol y myfyriwr
- Os ydych yn llys-riant y myfyriwr
- Os ydych yn ŵr, yn wraig, yn bartner sifil neu'n bartner sy'n cyd-fyw gydag un o rieni'r myfyriwr
- Os ydych yn ŵr, yn wraig neu'n bartner sifil y myfyriwr
- Partner sy'n cyd-fyw'r myfyriwr ac rydych chi'n byw gyda'r myfyriwr fel petaech yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon os:
  - Dechreuodd y myfyriwr ar ei gwrs/chwrs ar neu wedi 1 Awst 2018; **neu**
  - Dechreuodd y myfyriwr ei gwrs/chwrs cyn 1 Awst 2018 ac roedd dros 25 oed ar ddiwrnod 1af blwyddyn academaidd 1af y cwrs.

## Pa fanylion y bydd angen i mi eu darparu?

Bydd angen i chi ddarparu rhai manylion personol, a chyfanswm eich incwm ariannol ar gyfer y flwyddyn dreth 2024-25. **Rhaid** i chi nodi manylion eich incwm 2024-25 gan nad oes modd i ni dderbyn symiau ar gyfer unrhyw flwyddyn dreth arall. Bydd angen i ni gael symiau eich incwm er mwyn i ni allu cyfrifo'r hyn y bydd gan y myfyriwr(myfyrwyr) yr ydych yn eu cynnal yr hawl i'w gael.

## Sut ddylwn i lenwi'r ffurflen hon?

Mae'r ffurflen hon yn cynnwys 6 adran:

**adran 1** – manylion personol
**adran 2** – rhannu data a chi
**adran 3** – eich gwybodaeth ariannol
**adran 4** – incwm arall
**adran 5** – didyniadau incwm
**adran 6** – eich dibynyddion

- Dylech ddechrau trwy fwrw golwg ar y manylion yn adran 1 ac yna, dylech fynd trwy'r ffurflen. (Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau, efallai na fydd angen i chi lenwi pob adran)
- **Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os bydd angen gwybodaeth bellach arnoch, gallwch:**
  – droi at: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**
  – Ffonio **0300 200 4050**

Unwaith y bydd eich ffurflen wedi ei chwblhau a'r datganiad wedi ei lofnodi a'i ddyddio, dylech ei dychwelyd atom yn:

**Cyllid Myfyrwyr Cymru**
**Blwch Post 211**
**Cyffordd Llandudno**
**LL30 9FU**

I gael gwybod sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd** i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn llenwi'r ffurflen hon.

**Cofiwch dalu'r pris postio cywir.**

# Adran 1 - manylion personol

## a Manylion y myfyriwr

Cyfeirnod Cwsmer

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Dyddiad geni — Dydd / Mis / Blwyddyn

## b Eich manylion

(Dylech ateb y cwestiwn hwn gan nodi'r manylion yn union fel y maent yn ymddangos ar eich tystysgrif geni neu'ch pasbort.)

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Rhyw — Gwryw — Benyw

Dyddiad geni — Dydd / Mis / Blwyddyn

Man geni (enw'r dref neu'r pentref)

Os oes gennych eich Cyfeirnod Cwsmer eich hun, dylech ei nodi yma

Perthynas gyda'r myfyriwr

Cyfeiriad e-bost

# Adran 2 - rhannu data a chi

Byddwn yn rhannu a gwirio'r manylion a roddwch i ni gyda Chyllid a Thollau EM, gan ein galluogi i gael yr wybodaeth ariannol fwyaf cywir posibl. Dim ond os oes gennych rif Yswiriant Gwladol (YG) dilys allwn ni wneud hyn. n

**Mae gennyf rif YG**

Rhowch eich rhif YG isod:

__ __ - __ __ __ __ __ __ - __

Rydych nawr yn barod i ddarparu eich gwybodaeth ariannol.

ewch i adran 3

**Nid oes gennyf rif YG**

Os nad oes gennych rif YG am eich bod yn derbyn incwm trethadwy o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig, rhowch yr wybodaeth ariannol gyfatebol i ni mewn punnoedd sterling.

Rydych nawr yn barod i ddarparu eich gwybodaeth ariannol.

ewch i adran 3

# Adran 3 - eich manylion ariannol

**Cyfarwyddiadau**

- Rhowch wybodaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn dreth o **6 Ebrill 2024 i 5 Ebrill 2025.**
- Dylech ateb 'Do' neu 'Naddo' ar gyfer pob cwestiwn, ac os byddwch yn ateb 'Do', dylech nodi swm yr incwm.
- Pan fyddwch yn dweud swm wrthym, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth wedi ei lungopïo i gefnogi hyn. t
- Os byddwch yn ateb 'Naddo' i gwestiwn, mae hyn yn golygu eich bod yn dweud wrthym **na wnaethoch** gael unrhyw incwm o'r math penodol hwnnw o incwm.
- Os bydd angen help arnoch gydag unrhyw gwestiynau, dylech droi at y nodiadau cymorth bob tro y byddwch yn gweld yr eicon hwn. n

! **Sylwer, os byddwch yn gadael unrhyw gwestiynau yn wag, ni fyddwn yn gallu prosesu'r cais hwn.**

## Manylion ariannol

**C1** A gawsoch chi Gredydau Treth Gwaith neu Gredydau Treth Plant? ☐ Do ☐ Naddo

**C2** A fyddwch yn derbyn Cefnogaeth Incwm neu Gredyd Cynhwysol? ☐ Do ☐ Naddo

**C3** A gawsoch chi unrhyw incwm gan gyflogau, budd-daliadau trethadwy y wladwriaeth neu bensiynau galwedigaethol neu breifat? ☐ Do ☐ Naddo

**a** Cyfanswm yr incwm gan gyflogau n £

**b** Cyfanswm yr incwm gan fudd-daliadau trethadwy y wladwriaeth n £

**c** Cyfanswm yr incwm gan bensiwn(pensiynau) galwedigaethol £
Os byddwch chi'n derbyn pensiwn cyfandaliad, dim ond y swm a dderbynioch y gwnaethoch dalu treth arno ddylech chi ddatgan.

**d** Cyfanswm yr incwm gan bensiwn(pensiynau) preifat £
Os byddwch chi'n derbyn pensiwn cyfandaliad, dim ond y swm a dderbynioch y gwnaethoch dalu treth arno ddylech chi ddatgan.

t **Angen tystiolaeth ariannol** – Darparwch dystiolaeth ariannol wedi ei lungopïo ar gyfer pob swm unigol a roddwyd uchod. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r dystiolaeth a lungopïwyd sydd angen i chi anfon atom i gefnogi'r symiau a roddoch.

| Math o incwm | Eitemau tystiolaeth wedi llungopïo ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25 y gallwch anfon |
|---|---|
| Cyflog, budd-daliadau trethadwy y wladwriaeth, pensiwn(pensiynau) galwedigaethol / preifat | P60 |
| Cyflogau a phensiwn(pensiynau) galwedigaethol | Slip cyflog mis 12 neu slip cyflog wythnos 53 |
| Budd-daliadau trethadwy y wladwriaeth – os oeddech yn ddi-waith trwy gydol y flwyddyn dreth lawn | P60U |

# Adran 3 - eich manylion ariannol

## Parhad

**C4** A gawsoch chi unrhyw incwm gan bensiwn ymddeol y wladwriaeth? ☐ Do ☐ Naddo

**a** Cyfanswm y swm a gafwyd nad oedd yn gyfandaliad £

**b** Cyfanswm y cyfandaliad a gafwyd £

t **Angen tystiolaeth ariannol** – Darparwch dystiolaeth ariannol wedi ei lungopïo ar gyfer y swm neu symiau a roddwyd uchod. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r dystiolaeth a lungopïwyd sydd angen i chi anfon.

| Math o incwm | Eitemau tystiolaeth wedi llungopïo ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25 y gallwch anfon |
|---|---|
| Eich taliadau pensiwn | Cadarnhad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau<br>P60<br>BR735<br>Cadarnhad gan yr Asiantaeth Budd-daliadau |
| Eich taliadau pensiwn os oeddech yn Hunanasesu ac yn llenwi ffurflen dreth ar-lein | Llungopi o'ch ffurflen dreth ar-lein lawn derfynol |
| Eich taliadau pensiwn os oeddech yn Hunanasesu ac yn llenwi ffurflen dreth bapur fer | Llungopi o'ch ffurflen SA200 lawn derfynol |
| Eich taliadau pensiwn os oeddech yn Hunanasesu ac yn llenwi ffurflen dreth bapur lawn | Llungopi o'ch ffurflen SA100 lawn derfynol |

**C5** A gawsoch chi unrhyw incwm gan gynilion a buddsoddiadau? n ☐ Do ☐ Naddo

**a** Cyfanswm y **llog** gan fanciau, cymdeithasau adeiladu a chwmnïau buddsoddi yn y DU £

**b** Cyfanswm yr incwm gan enillion yswiriant bywyd, gwarannau a phartneriaethau yn y DU £

**c** Cyfanswm yr incwm gan fudd-daliadau a difidendau yn y DU £

**d** Cyfanswm yr incwm gan fuddsoddiadau a difidendau tramor £

Cyfanswm yr incwm a gafwyd £

t **Angen tystiolaeth ariannol** – Darparwch dystiolaeth ariannol wedi ei lungopïo ar gyfer pob swm unigol a roddwyd uchod.

# Adran 3 - eich manylion ariannol

Parhad

| Math o incwm | Eitemau tystiolaeth wedi llungopïo ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25 y gallwch anfon |
|---|---|
| Llog gan fanciau, cymdeithasau adeiladu a chwmnïau buddsoddi yn y DU | Cyfriflenni banc / cymdeithas adeiladu<br>Llungopïau o ddifidendau<br>Cyfriflenni hanner blwyddyn |
| Incwm gan gynilion a buddsoddiadau os oeddech yn Hunanasesu ac yn llenwi ffurflen dreth ar-lein | Llungopi o'ch ffurflen dreth ar-lein lawn derfynol |
| Incwm gan gynilion a buddsoddiadau os oeddech yn Hunanasesu ac yn llenwi ffurflen dreth bapur fer | Llungopi o'ch ffurflen SA200 lawn derfynol |
| Incwm gan gynilion a buddsoddiadau os oeddech yn Hunanasesu ac yn llenwi ffurflen dreth bapur lawn | Llungopi o'ch fersiwn llawn derfynol o:<br>ffurflenni SA100 ac SA101; a'ch<br>ffurflen SA104F neu SA104S (ble fo'n berthnasol); neu<br>ffurflen SA106 |

**C6** A gawsoch chi unrhyw fuddion ar ffurf rhoddion trethadwy? n

☐ Do ☐ Naddo

Cyfanswm yr incwm a gafwyd £

t **Angen tystiolaeth ariannol -** Darparwch dystiolaeth ariannol wedi ei lungopïo ar gyfer y swm neu symiau a roddwyd uchod. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r dystiolaeth a lungopïwyd sydd angen i chi anfon.

| Math o incwm | Eitemau tystiolaeth wedi llungopïo ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25 y gallwch anfon |
|---|---|
| Buddion ar ffurf rhoddion trethadwy os oedd eich cyflog yn £8500 neu fwy n | P11D |
| Buddion ar ffurf rhoddion trethadwy os oedd eich cyflog yn llai na £8500 | P9D |

## Unrhyw incwm arall

**C7** A gawsoch chi unrhyw incwm arall yn ystod blwyddyn dreth 2024-25 **nad ydych** wedi sôn wrthym amdano yn barod?

☐ Do — **Ewch i adran 4**

☐ Naddo — **Ewch i adran 5**

# Adran 4 - incwm arall

**Cyfarwyddiadau**

- Cwblhewch adran 4 yn yr un ffordd ag y byddech wedi cwblhau adran 3 yn rhoi manylion ariannol ar gyfer y flwyddyn dreth o **6 Ebrill 2024 i 5 Ebrill 2025.**
- Os bydd angen help arnoch gydag unrhyw gwestiynau, dylech droi at y nodiadau cymorth bob tro y byddwch yn gweld yr eicon hwn. n

  Mae'r nodiadau yn cynnwys dadansoddiad o'r hyn yr hoffem i chi ei gynnwys ar gyfer pob cwestiwn, yn ogystal â ble i ddod o hyd i symiau unigol mewn rhai o'r dogfennau ariannol sydd gennych.
- Pan roddir unrhyw swm, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth wedi ei lungopïo i gefnogi hyn. Ceir tabl ar ddiwedd adran 4 gyda chrynhoad o ba ddogfennau ariannol wedi eu llungopïo sydd angen i chi anfon. t

**C1** A gawsoch chi unrhyw incwm hunangyflogaeth? n — ☐ Do ☐ Naddo

**a** Cyfanswm elw wedi'i gymhwyso o fusnesau — £

**b** Cyfanswm elw wedi'i gymhwyso o bartneriaethau — £

Cyfanswm yr incwm a gafwyd — £

**C2** A gawsoch chi unrhyw incwm fel Gweinidog yr efengyl? n — ☐ Do ☐ Naddo

Cyfanswm yr incwm trethadwy heb gynnwys treuliau na chânt eu cynnwys ar eich P60 neu P11D? — £

**C3** A gawsoch chi unrhyw gyfandaliadau neu incwm trethadwy arall? n — ☐ Do ☐ Naddo

Cyfanswm yr incwm a gafwyd — £

**C4** A gawsoch chi unrhyw incwm o osod eiddo? n — ☐ Do ☐ Naddo

Cyfanswm yr incwm a gafwyd — £

**C5** A gawsoch chi unrhyw incwm gan ymddiriedolaethau yn y DU? n — ☐ Do ☐ Naddo

Cyfanswm yr incwm a gafwyd — £

# Adran 4 - incwm arall

Parhad

**C6** A gawsoch chi unrhyw incwm tramor? n

☐ Do ☐ Naddo

Cyfanswm yr incwm a gafwyd £

**C7** A gawsoch chi unrhyw incwm gan bensiwn tramor? n

☐ Do ☐ Naddo

Cyfanswm yr incwm a gafwyd £

**C8** A gawsoch chi unrhyw elw neu incwm tramor arall? n

☐ Do ☐ Naddo

Cyfanswm yr incwm a gafwyd £

## Tystiolaeth ariannol wedi ei lungopïo sydd angen i chi anfon ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25

t Darparwch dystiolaeth ariannol wedi ei lungopïo ar gyfer pob swm unigol a roddoch yn adran 4. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r dystiolaeth a lungopïwyd sydd angen i chi ei anfon.

| Sut y gwnaethoch chi gyflwyno'ch manylion 2024-25 i Gyllid a Thollau EM (HMRC) | Eitemau tystiolaeth wedi llungopïo ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25 y gallwch anfon |
|---|---|
| Ffurflen dreth ar-lein | Llungopi o'ch ffurflen dreth ar-lein lawn derfynol |
| Ffurflen dreth bapur fer | Llungopi o'ch ffurflen SA200 lawn derfynol |
| Ffurflen dreth bapur llawn | Llungopi o bob ffurflen unigol y mae unrhyw swm yr ydych wedi'n hysbysu amdano wedi ei gofnodi arno. Yn ddibynnol ar eich amgylchiadau treth, efallai y bydd angen i chi anfon copi o'ch fersiwn lawn wedi ei therfynu o:<br><br>SA100 – Prif ffurflen dreth<br>SA101 – Gwybodaeth ychwanegol<br>SA102M – Gweinidogion yr Efengyl<br>SA103S – Hunangyflogaeth, fersiwn byr<br>SA103F – Hunangyflogaeth, fersiwn llawn<br>SA103L – Gwarantwyr Lloyds<br>SA104F – Partneriaeth, fersiwn llawn<br>SA104S – Partneriaeth, fersiwn byr<br>SA105 – Eiddo yn y DU<br>SA106 – Tramor<br>SA107 – Ymddiriedolaethau |

# Adran 5 - didyniadau incwm

## Cyfarwyddiadau

- Cwblhewch adran 5 yn yr un ffordd ag y byddech wedi cwblhau adran 4 yn rhoi manylion ariannol ar gyfer y flwyddyn dreth o **6 Ebrill 2024 i 5 Ebrill 2025.**
- Os bydd angen help arnoch gydag unrhyw gwestiynau, dylech droi at y nodiadau cymorth bob tro y byddwch yn gweld yr eicon hwn. n
- Pan nodir unrhyw swm, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i'w gefnogi. t

**C1** A wnaethoch chi dalu unrhyw gyfraniadau i bensiwn preifat? ☐ Do ☐ Naddo

Y cyfanswm a dalwyd gennych £

t **Angen tystiolaeth ariannol -** Darparwch dystiolaeth ariannol wedi ei lungopïo ar gyfer y swm neu symiau a roddwyd uchod. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r dystiolaeth a lungopïwyd sydd angen i chi anfon.

| Math o gyfraniad | Eitemau tystiolaeth wedi llungopïo ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25 y gallwch anfon |
|---|---|
| Eich cyfraniadau pensiwn preifat | Datganiad blynyddol gan eich cwmni pensiwn neu'ch cwmni yswiriant<br>P60<br>Cyfrifiadau Treth<br>Cadarnhad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau am swm y pensiwn a dalwyd |
| Eich cyfraniadau pensiwn preifat os oeddech yn Hunanasesu | Llungopi o'ch ffurflen dreth ar-lein lawn derfynol |

**C2** A wnaethoch chi dalu unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs)? ☐ Do ☐ Naddo

Y cyfanswm a dalwyd gennych £

t **Angen tystiolaeth ariannol -** Darparwch dystiolaeth ariannol wedi ei lungopïo ar gyfer y swm neu symiau a roddwyd uchod. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r dystiolaeth a lungopïwyd sydd angen i chi anfon.

| Math o gyfraniad | Eitemau tystiolaeth wedi llungopïo ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25 y gallwch anfon |
|---|---|
| Eich Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs) | Datganiad blynyddol gan eich cwmni pensiwn neu'ch cwmni yswiriant<br>P60<br>Cyfrifiadau Treth<br>Cadarnhad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| Eich Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs) os oeddech yn Hunanasesu | Llungopi o'ch ffurflen dreth ar-lein lawn derfynol |

# Adran 5 - didyniadau incwm

## Parhad

**C3** A oedd gennych unrhyw dreuliau caniataol y gwnaethoch hawlio gostyngiad treth yn eu cylch? n

☐ Oedd ☐ Nac Oedd

Cyfanswm y treuliau caniataol y gwnaethoch hawlio gostyngiad treth yn eu cylch £

t **Angen tystiolaeth ariannol -** Darparwch dystiolaeth ariannol wedi ei lungopïo ar gyfer y swm neu symiau a roddwyd uchod. Mae’r tabl canlynol yn crynhoi’r dystiolaeth a lungopïwyd sydd angen i chi anfon.

| Math o dreuliau | Eitemau tystiolaeth wedi llungopïo ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25 y gallwch anfon |
|---|---|
| Eich treuliau caniataol y gwnaethoch hawlio gostyngiad treth yn eu cylch | Hysbysiad Cod (P2) |
| Eich treuliau caniataol y gwnaethoch hawlio gostyngiad treth yn eu cylch os oeddech yn Hunanasesu ac yn llenwi ffurflen dreth ar-lein | Llungopi o’ch ffurflen dreth ar-lein lawn derfynol |
| Eich treuliau caniataol y gwnaethoch hawlio gostyngiad treth yn eu cylch os oeddech yn Hunanasesu ac yn llenwi ffurflen dreth bapur fer | Llungopi o’ch ffurflen SA200 lawn derfynol |
| Eich treuliau caniataol y gwnaethoch hawlio gostyngiad treth yn eu cylch os oeddech yn Hunanasesu ac yn llenwi ffurflen dreth bapur lawn | Llungopi o’ch fersiwn llawn derfynol o’ch ffurflen:<br>SA100<br>SA101 ac / neu<br>SA102 |

# Adran 6 - eich dibynyddion

Nodwch unrhyw blant a fydd yn hollol ddibynnol arnoch neu'n ddibynnol arnoch ar y cyfan yn ariannol.

**C1 Dibynyddion sy'n blant, nad ydynt mewn addysg bellach neu addysg uwch yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25**

Dylech gynnwys incwm heb ei ennill ar gyfer yr holl ddibynyddion. Dim ond manylion incwm a enillwyd gan unigolion 16 oed a throsodd y dylech ei gynnwys. Ni ddylech gynnwys enillion dros dro unigolion dan 16 oed.

| Enw llawn | Dyddiad geni | Incwm ar gyfer y flwyddyn |
|---|---|---|
| | **(DD MM BBBB)** | |

**C2 Plant dibynnol <u>mewn</u> addysg bellach neu addysg uwch yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25**

**Ni** ddylech gynnwys yr ymgeisydd pan fyddwch yn ateb y cwestiwn hwn.

Os mai'ch partner chi yw'r myfyriwr, dylech gynnwys unrhyw blant a enwyd ganddynt yn eu ffurflen Cais am Gyllid i Fyfyrwyr os yw'r plant wedi gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr.

| Enw llawn | Dyddiad geni | Ysgol, coleg neu brifysgol | Cwrs | A ydynt yn cael cymorth ariannol? Os felly, gan ba awdurdod neu sefydliad? |
|---|---|---|---|---|
| | **(DD MM BBBB)** | | | |

# Datganiad

Efallai y bydd y cais hwn am gymorth ariannol yn cael ei oedi os na fyddwch yn llofnodi ac yn dyddio'r datganiad hwn.

I gael gwybod sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a roddwch, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd** i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn llofnodi'r ffurflen hon.

- Rydw i'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod y wybodaeth a ddarparwyd gennyf yn gywir ac yn gyflawn. Os nad yw, deallaf y gallai cymorth ariannol y myfyriwr(myfyrwyr) yr ydw i'n eu cynorthwyo gael ei dynnu yn ôl, ac y gallwn gael fy erlyn.
- Rwy'n cytuno i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach parthed cais yr ymgeisydd am gymorth ariannol fel fydd yn rhesymol angenrheidiol, ac rwy'n cytuno i ddarparu hysbysiad ar unwaith o, a manylion parthed, unrhyw newid yn fy amgylchiadau a allai effeithio mewn unrhyw fodd ar y cais hwn am gymorth ariannol.

| | |
|---|---|
| Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU) | |
| Eich llofnod | X |
| Dyddiad | Dydd / Mis / Blwyddyn |

## adran 2 – rhannu data a chi

Byddwn yn gwirio'r wybodaeth ariannol a ddarparwch gyda Chyllid a Thollau EM. Fe gedwir yr wybodaeth hon yn ddiogel ac yn gyfan gwbl yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data.

Os nad ydych yn darparu eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) ar y ffurflen gais, byddwn yn gofyn i chi ddarparu copïau o'ch dogfennau ariannol.

Os bydd eich rhif YG i'w weld ar unrhyw un o'r dogfennau a anfonwch atom i gefnogi cais, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon ac yn ei rhannu a'i gwirio gyda Chyllid a Thollau EM er mwyn cael gwybodaeth ariannol gywir amdanoch chi.

## adran 3 – eich manylion ariannol

Dylech ddarparu tystiolaeth am y flwyddyn dreth 2024-25. Fel arfer, hon yw'r flwyddyn sy'n gorffen 5 Ebrill 2025 ond fe allai fod yn wahanol os bydd gan eich cyflogwr neu'ch busnes flwyddyn dreth nad yw'n gorffen ym mis Ebrill.

Ar gyfer unrhyw incwm a dalwyd mewn arian tramor, dylech nodi'r swm cyfatebol mewn punnoedd sterling.

Os yr ydych yn hunan-asesu, dylech gyfeirio at eich dychweliad treth orffenedig ar gyfer eich gwybodaeth ariannol.

### C3 Incwm gan gyflogau, budd-daliadau trethadwy y wladwriaeth neu bensiynau galwedigaethol neu breifat

**a Cyfanswm yr incwm gan gyflogau**

Os y cawsoch chi **gildyrnau a thaliadau eraill** fel rhan o'ch cyflog ar gyfer y flwyddyn dreth 2024-25, nad oeddent yn ymddangos ar eich P60, bydd angen i chi gynnwys y ffigwr hwn o hyd wrth nodi cyfanswm eich incwm gan gyflogaeth.

**b Budd-daliadau trethadwy y wladwriaeth**

Dim ond incwm a gafwyd ar gyfer y budd-daliadau canlynol y dylid ei gynnwys:

- Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Gofalwr
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth wedi'i seilio ar Gyfraniadau
- Budd-dal ymddeol graddedig
- Budd-dal Analluogrwydd (dim ond y swm a gafwyd ar ôl gwerth 28 wythnos o analluogrwydd y dylid ei gynnwys)
- Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Tâl Mabwysiadu Statudol
- Tâl Mamolaeth Statudol
- Tâl Tadolaeth Statudol
- Tâl Salwch Statudol
- Lwfans Rhiant Gweddw

Peidiwch â chynnwys incwm o unrhyw fudd-daliadau eraill, yn cynnwys Credyd Cynhwysol

# **adran 3 –** eich manylion ariannol

## C5 Incwm gan gynilion a buddsoddiadau

Er mwyn ei gwneud yn haws i chi ateb y cwestiwn hwn, rydym wedi ei rannu'n 4 rhan ar wahân. Efallai eich bod wedi cael neu heb gael incwm dan bob rhan, felly dylech nodi'r rhai y gwnaethoch gael incwm ganddynt yn unig.

**!** Dylech nodi swm y llog / incwm a gawsoch gan gynilion a buddsoddiadau yn ystod y flwyddyn dreth 2024-25 yn unig, ac nid swm go iawn y cynilion neu'r symiau yr oedd gennych wedi'u buddsoddi.

### a Incwm gan fanciau, cymdeithasau adeiladu a chwmnïau buddsoddi yn y DU

Nodwch swm y llog / incwm a gawsoch dan y math(au) canlynol o incwm buddsoddi a chynilion:

- Llog gros y Deyrnas Unedig (cyn didynnu treth)
  Rhaid i chi gynnwys llog a dderbyniwch ar gyfrifon cynilo banc, cymdeithas adeiladu ac eraill oni bai ei fod yn benodol ddi-dreth, er enghraifft, Cyfrif Cynilo Unigol (ISA) di-dreth ac ati.

**Os na wnaethoch chi ddatgan unrhyw incwm buddsoddi a chynilion i HMRC**

Trowch at eich cyfriflenni banc neu gymdeithas adeiladu am y ffigurau hyn.

## **adran 3 –** eich manylion ariannol

### b Incwm o enillion yswiriant bywyd, gwarantau a phartneriaethau'r Deyrnas Unedig

Nodwch swm y llog / incwm a gawsoch dan y math(au) canlynol o incwm buddsoddi a chynilion:

- Llog gan stociau ymyl aur a gwarannau eraill y DU – swm gros cyn treth
- Enillion polisi yswiriant bywyd y DU ac ati lle ystyriwyd y talwyd treth arnynt
- Enillion polisi yswiriant bywyd y DU ac ati lle na ystyriwyd y talwyd treth arnynt
- Enillion polisi yswiriant bywyd y DU ac ati gan ISA's a ddiddymwyd
- Eich cyfran o'r llog y codwyd treth arno ac ati.
- Cyfanswm yr incwm gan gynilion anhrethedig, y codir treth o 20% arno
- Incwm trethedig, y codir treth o 10% arno
- Incwm trethedig, y codir treth o 20% arno

### c Incwm gan fuddsoddiadau a difidendau yn y DU

Nodwch swm y llog / incwm a gawsoch dan y math(au) canlynol o incwm buddsoddi a chynilion:

- Difidendau gan gwmnïau yn y DU
- Difidendau eraill
- Difidendau Stoc
- Dosraniadau anghymwys a benthyciadau cwmni agos wedi'u dileu neu eu rhyddhau
- Cynlluniau cyfranddaliadau – swm trethadwy

# **adran 3 –** eich manylion ariannol

### d **Incwm gan fuddsoddiadau a difidendau tramor**

Nodwch swm y llog / incwm a gawsoch dan y math(au) canlynol o incwm buddsoddi a chynilion:

- Difidendau tramor
- Llog ac incwm arall gan gynilion tramor
- Difidendau gan gwmnïau tramor
- Incwm difidend a gafwyd gan berson mewn gwlad dramor

# **adran 3 –** eich manylion ariannol

### C6 **Incwm gan fuddion ar ffurf rhoddion trethadwy**

**P11D**

Mae'r tabl canlynol yn cynnig dadansoddiad o'r hyn yr hoffem i chi ei gynnwys fel rhan o gyfanswm eich incwm gan 'fuddion ar ffurf rhoddion trethadwy' yn ystod y flwyddyn dreth 2024-25. Dylech gyfuno'r holl fuddion ar ffurf rhoddion a gawsoch, gan nodi'r cyfanswm ar y ffurflen.

- Asedau a ddarparwyd at ddefnydd cyflogeion (ceir, eiddo, nwyddau neu asedau eraill)
- Taliadau a wnaethpwyd ar ran y cyflogai
- Talebau a chardiau credyd
- Llety byw
- Lwfans milltiroedd a thaliadau teithiwr
- Cyfanswm sy'n gyfwerth ag arian parod o ran yr holl geir/faniau a oedd ar gael
- Cyfanswm sy'n gyfwerth ag arian parod o ran y tanwydd sydd ar gael ar gyfer yr holl geir/faniau
- Yr hyn y mae'n gyfwerth ag arian parod o ran benthyciadau, ar ôl didynnu unrhyw log a dalwyd gan y benthycwr
- Yswiriant neu driniaeth feddygol preifat
- Buddion a thaliadau treuliau adleoli cymwys
- Gwasanaethau a ddarparwyd
- Asedau a oedd ar gael i gyflogeion
- Eitemau eraill (gan gynnwys tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol)
- Taliadau treuliau a wnaethpwyd i, neu ar ran, y cyflogai

## **adran 4 –** incwm arall

### C1 Incwm hunangyflogaeth

Er mwyn ei gwneud yn haws i chi ateb y cwestiwn hwn, rydym wedi ei rannu'n 2 ran. Efallai eich bod wedi cael neu heb gael incwm hunangyflogaeth dan y ddwy ran, a dylech nodi'r rhai y gwnaethoch gael incwm ganddynt yn unig.

### a Cyfanswm elw wedi'i gymhwyso o fusnesau

Dylech gynnwys y math incwm isod fel eich ateb ar gyfer cyfanswm yr elw wedi'i gymhwyso a dderbynioch o hunangyflogaeth yn ystod blwyddyn dreth 2024-25.

- Cyfanswm elwau wedi'u cymhwyso o'r busnes hwn (wedi ei gyfuno ar gyfer hunangyflogaeth lluosog)

### b Cyfanswm elw wedi'i gymhwyso o bartneriaethau

Dylech gynnwys y math(au) incwm isod fel eich ateb ar gyfer cyfanswm yr elw a dderbynioch o bartneriaethau yn ystod blwyddyn dreth 2024-25.

- Cyfran o gyfanswm incwm a drethwyd a heb ei drethu ac eithrio'r hyn sy'n drethadwy ar 10% ac 20%
  Eich cyfran o'r elw wedi'i gymhwyso o'r partneriaethau

# adran 4 – incwm arall

## C2 Gweinidog yr Efengyl

Nodwch swm yr incwm a gawsoch dan y math canlynol o incwm yn ystod y flwyddyn dreth 2024-25:

- Incwm trethadwy ar ôl tynnu'r treuliau (Gweinidogion yr Efengyl) na chawsant eu cynnwys yn eich P60 neu'ch P11D

## C3 Incwm arall a chyfandaliadau

Dylech gynnwys y math(au) incwm isod wrth i chi ateb ynghylch swm yr incwm a gawsoch gan gyfandaliadau ac incwm arall.

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod y flwyddyn dreth 2024-25 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen. Efallai eich bod wedi cael neu heb gael incwm gan bob math o incwm a restrir, felly dylech nodi'r rhai y gwnaethoch gael incwm ganddynt yn unig.

- Incwm trethadwy arall – cyn cymryd treth a threuliau i ffwrdd
- Enillion tramor nad ydynt yn drethadwy yn y DU
- Cyfandaliadau trethadwy
- Diswyddo ac iawndal am golli swydd
- Cyfandaliadau neu fuddion a gafwyd gan Gynllun Buddion Ymddeol sy'n cael ei Gyllido gan Gyflogwr, ac eithrio pensiynau

# adran 4 – incwm arall

## C4 Incwm gosod eiddo

Dylech gynnwys y math(au) incwm isod wrth i chi ateb ynghylch swm yr incwm gosod eiddo a gawsoch.

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod y flwyddyn dreth 2024-25 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen. Efallai eich bod wedi cael neu heb gael incwm gan bob math o incwm a restrir, felly dylech nodi'r rhai y gwnaethoch gael incwm ganddynt yn unig.

- Incwm gan eiddo yn y DU
- Incwm gan dir neu eiddo tramor

## C5 Incwm gan ymddiriedolaethau yn y DU

Dylech gynnwys y math(au) incwm isod wrth i chi ateb ynghylch swm yr incwm a gawsoch gan ymddiriedolaethau yn y DU.

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod y flwyddyn dreth 2024-25 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen. Efallai eich bod wedi cael neu heb gael incwm gan bob math o incwm a restrir, felly dylech nodi'r rhai y gwnaethoch gael incwm ganddynt yn unig.

- Taliad incwm dewisol gan ymddiriedolaeth breswyl o'r DU – swm net
- Taliad incwm dewisol gan ymddiriedolaeth breswyl o'r DU – cyfanswm y taliadau gan ymddiriedolaeth budd-setlwr
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – swm net yr incwm nad yw'n incwm cynilion
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – swm net yr incwm gan gynilion
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – swm net yr incwm gan ddifidend
- Incwm sy'n drethadwy ar ymsefydlwyr
- Incwm gan ystadau yn y DU
- Incwm gan ystad dramor

## **adran 4 –** incwm arall

### C6 Incwm tramor

Dylech gynnwys y math(au) incwm isod wrth i chi ateb ynghylch swm yr incwm a gawsoch gan incwm tramor.

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod y flwyddyn dreth 2024-25 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen. Efallai eich bod wedi cael neu heb gael incwm gan bob math o incwm a restrir, felly dylech nodi'r rhai y gwnaethoch gael incwm ganddynt yn unig.

- Cyfanswm trethadwy gan bensiynau tramor, budd-daliadau nawdd cymdeithasol a breindaliadau ac ati.
- Cyfanswm trethadwy yr holl incwm arall a gafwyd gan berson mewn gwlad dramor ac unrhyw incwm tramor 'wedi'i neilltuo' a dalwyd
- Enillion ar waredu daliadau, cronfeydd tramor ac incwm dewisol gan ymddiriedolaethau amhreswyl
- Budd a gafwyd gan ymddiriedolaeth dramor, cwmni neu unigolyn arall
- Enillion ar bolisïau bywyd tramor (swm yr enillion)

### C7 Incwm gan bensiwn tramor

Dylech gynnwys y math(au) incwm isod wrth i chi ateb ynghylch swm yr incwm a gawsoch gan bensiwn tramor.

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod y flwyddyn dreth 2024-25 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen. Efallai eich bod wedi cael neu heb gael incwm gan bob math o incwm a restrir, felly dylech nodi'r rhai y gwnaethoch gael incwm ganddynt yn unig.

- Gwerth buddion pensiwn yn ychwanegol i'ch Lwfans Oes sydd Ar Gael, a gymrwyd gennych fel cyfandaliad
- Swm y taliad anawdurdodedig gan gynllun pensiwn, nad yw'n unol â gordal
- Cyfanswm y taliad anawdurdodedig gan gynllun pensiwn, nad yw'n unol â gordal
- Ad-daliad gwasanaeth byr trethadwy cyfraniad (cynlluniau pensiwn tramor yn unig)
- Taliad budd marwolaeth cyfandaliad trethadwy (pensiynau tramor yn unig)

## **adran 4 –** incwm arall

### C8 Enillion ac incwm tramor arall

Dylech gynnwys y math o incwm isod wrth i chi ateb ynghylch swm yr incwm a gawsoch gan enillion ac incwm tramor arall.

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod y flwyddyn dreth 2024-25 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen. Efallai eich bod wedi cael neu heb gael incwm gan bob math o incwm a restrir, felly dylech nodi'r rhai y gwnaethoch gael incwm ganddynt yn unig.

- Swm yr hepgorion (eithriadau dan drefniadau trosglwyddo asedau tramor)

# **adran 5** – didyniadau incwm

### C3 **Treuliau a ganiateir, y gwnaethoch hawlio gostyngiad yn y dreth arnynt**

Mae'r rhestr isod yn ddadansoddiad o'r hyn yr hoffem i chi ei gynnwys yn eich ateb ynghylch swm y treuliau a ganiateir a gawsoch, ac y gwnaethoch hawlio gostyngiad yn y dreth arnynt.

Isod, dylech gyfuno'r holl dreuliau a ganiateir a gawsoch yn ystod y flwyddyn dreth 2024-25 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen. Efallai eich bod wedi cael neu heb gael yr holl dreuliau a ganiateir a restrir, felly dylech nodi'r rhai a gawsoch yn unig.

- Cyfanswm y treuliau a ganiateir
- Treth dramor nas hawliwyd gostyngiad credyd treth ar ei chyfer
- Treuliau cynhaliaeth a theithio busnes
- Didyniadau sefydlog ar gyfer treuliau
- Tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol
- Lwfansau cyfalaf a threuliau eraill

# **adran 6** – eich dibynyddion

### Blwyddyn academaidd

Dylech nodi incwm y plentyn dibynnol ar gyfer y flwyddyn academaidd. Pennir y flwyddyn academaidd gan yr adeg pan fydd y myfyriwr yn dechrau astudio.

| Mae'r myfyriwr yn dechrau astudio rhwng | Blwyddyn Academaidd |
|---|---|
| 1 Awst 2024 a 31 Rhagfyr 2024 | 1 Medi 2024 tan 31 Awst 2025 |
| 1 Ionawr 2025 a 31 Mawrth 2025 | 1 Ionawr 2025 tan 31 Rhagfyr 2025 |
| 1 Ebrill 2025 a 30 Mehefin 2025 | 1 Ebrill 2025 tan 31 Mawrth 2026 |
| 1 Gorffennaf 2025 a 31 Gorffennaf 2025 | 1 Gorffennaf 2025 tan 30 Mehefin 2026 |

**C1** Mae angen nodi incwm y plentyn dibynnol er mwyn asesu cymhwystra ar gyfer y didyniadau wrth gyfrifo incwm y cartref ar gyfer pob plentyn sy'n ddibynnol yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar y myfyriwr, gŵr, gwraig neu bartner y myfyriwr neu rieni neu lys-rieni y myfyriwr. Mae modd i chi weld rhagor o wybodaeth am y ffordd y caiff gwybodaeth am y cartref ei chyfrifo trwy droi at: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Peidiwch â chynnwys incwm o ffynonellau megis Ymddiriedolaeth Plant y Llywodraeth, Budd-dal Plant y Wladwriaeth, Credyd Treth Plant, elfen plant y Credyd Cynhwysol neu isafsymiau o arian o ffynonellau eraill wrth nodi incwm dibynnydd sy'n blentyn.

# Datganiad

Os na allwch lofnodi'r ffurflen, rhaid i'ch atwrnai ei llofnodi ar eich rhan. Rhaid anfon llythyr y Pŵer Atwrnai gyda'r cais hwn cyn y derbynnir llofnod gan y atwrnai hwnnw.

### Newid mewn amgylchiadau

Rhaid i chi ddarparu hysbysiad ar unwaith o, a manylion ynghylch, unrhyw newid yn eich amgylchiadau, a allai effeithio ar hawl yr ymgeisydd i gefnogaeth ariannol. Y newid mwyaf cyffredin mewn amgylchiadau fyddai:

- os byddai incwm eich cartref yn newid; neu
- os byddai'ch statws priodasol yn newid.